

**Teitl yr aseiad: Portffolio o adnoddau i'w defnyddio i gefnogi llesiant
emosiynol a meddyliol.**

100% PORTFFOLIO (yn cynnwys cyflwyniad a thraethawd critigol)

Mae'ch aseiad ar gyfer y modiwl hwn yn bortffolio electronig a fydd yn cynnwys y ddwy elfen ganlynol, y ddwy yn 50% o'r marc terfynol:

Elfen 1: Cyflwyniad unigol 15 munud: Adfyriwch yn feirniadol ar yr heriau o gynnal a) iechyd emosiynol a meddyliol a lles eich dysgwyr a, b) eich lles eich hun o fewn eich lleoliad proffesiynol.	Elfen 2: Sylwebaeth ddadansoddol ysgrifenedig 2,500 gair: Trafodwch yn feirniadol yr ymchwil sydd yn cefnogi ymyriad cynnar o'ch dewis a sut y gellir ei gymhwyso a'i werthuso yn eich lleoliad proffesiynol eich hun.
Dyddiad cyflwyno: 08.01.26 Bydd angen i chi gynnwys copi o sleidiau eich cyflwyniad mewn un portffolio gyda'r traethawd. Rhaid i'ch cyflwyniad llafar gael ei recordio ymlaen llaw gan ddefnyddio pecyn priodol a bydd arweiniad pellach yn cael ei ddarparu ar hyn gan eich Sefydliad Addysg Uwch unigol.	

Gall y canllawiau canlynol eich helpu i ddechrau eich aseiad. Cofiwch fod dwy elfen yr aseiad hwn yn cael eu cyfuno i gynhyrchu marc cyffredinol y modiwl, felly ystyriwch ef fel un aseiad. Felly, efallai y byddai'n ddefnyddiol strwythuro'ch cyflwyniad a'ch traethawd yn unol â'r canllawiau isod:

Elfen 1: Cyflwyniad unigol 15 munud: Adfyriwch yn feirniadol ar yr heriau o gynnal a) iechyd emosiynol a meddyliol a lles eich dysgwyr a, b) eich lles eich hun o fewn eich lleoliad proffesiynol.

Pwrpas yr aseiniad penodol hwn yw rhoi'r gallu i chi ddangos eich dealltwriaeth feirniadol o'r heriau a wynebwr wrth gefnogi nid yn unig iechyd emosiynol a meddyliol a lles eich dysgwyr, ond hefyd eich iechyd emosiynol a meddyliol eich hun o fewn eich cyd-destun proffesiynol penodol. I wneud hyn yn dda, bydd angen i'ch

cyflwyniad ddwyn sylw at bolisïau perthnasol a'u cymhwyso i'ch cyd-destun proffesiynol eich hun.

Efallai y byddwch yn dewis canolbwyntio prif ran eich cyflwyniad ar un her benodol y daethoch ar ei thraws mewn lleoliad perthnasol, neu efallai y byddwch yn dewis ymdrin ag amrywiaeth o heriau. Yr hyn sy'n bwysig i'w gofio, nid yw'n ddigon i ddisgrifio'r heriau'n unig a/neu gynnig eich barn bersonol eich hun am yr achosion, y canlyniadau neu'r atebion i'r heriau hyn. Yr hyn y dylech wneud yw ategu pob un o'r pwyntiau allweddol a wnewch gyda thystiolaeth. Gelwir hyn yn fyfyrio beirniadol, a dylai hyn gael ei lywio'n rhannol o leiaf gan yr ymchwil a'r sylwebaeth feirniadol a ddogfennwyd yn ail elfen yr aseiad hwn, eich traethawd ysgrifenedig (gweler isod).

Cyflwyniad:

- Cyflwynwch yn gryno eich cyd-destun proffesiynol a'ch lleoliad proffesiynol eich hun.
- Nodi'r polisïau penodol y byddwch yn eu defnyddio ar gyfer eich cyflwyniad
- Nodi'r heriau penodol y byddwch yn canolbwyntio arnynt a'u cysylltu â theori a thystiolaeth ymchwil berthnasol.
- Gwnewch rai awgrymiadau ar sail tystiolaeth ynglŷn â sut i barhau i gefnogi iechyd a lles emosiynol a meddyliol ers dychwelyd i arfer "normal" yn eich cyd-destun chi. Efallai y byddwch hefyd am ystyried eich anghenion datblygiad proffesiynol eich hun mewn o ran mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn.
- Dewch â'ch cyflwyniad i ddiwedd glo trwy awgrymu rhai strategaethau clir ar gyfer parhau i sicrhau cynaliadwyedd mentrau a gynlluniwyd i gefnogi iechyd a lles emosiynol a meddyliol yn eich lleoliad proffesiynol.

Rhai awgrymiadau ar gyfer cyflwyniadau effeithiol:

- Cadwch at amser – bydd marciau'n cael eu tynnu oddi ar gyflwyniadau sy'n mynd dros amser
- Peidiwch â gorlwytho eich sleidiau gyda gormod o destun. Mae'r sleidiau yno i gefnogi eich cyflwyniad llafar felly dylent fod yn ddeniadol yn weledol ac yn hawdd eu dilyn.

- Ceisiwch osgoi cyflwyniad llafar wedi'i or-sgriptio a gwnewch yn siŵr ei fod yn ddeniadol ac yn ddeinamig.
- Recordiwch eich hun ar fideo yn cyflwyno'r cyflwyniad lle bo modd, gan y bydd hwn yn gyflwyniad llawer mwy proffesiynol a deniadol yn gyffredinol.
- Sicrhewch fod eich cyflwyniad yn cynnwys cyfeiriadau allweddol at lenyddiaeth i gefnogi eich pwyntiau trwy gydol y cyflwyniad. Dylid cynnwys awduron a dyddiad yn unig yn y prif sleidiau, ac yna cyflwyno'r cyfeiriadau llawn naill ai ar ddiwedd y cyflwyniad neu ar waelod y sleid berthnasol.

Elfen 2: Trafodwch yn feirniadol yr ymchwil sydd yn cefnogi ymyriad cynnar o'ch dewis a sut y gellir ei gymhwyso a'i werthuso yn eich lleoliad proffesiynol eich hun

Mae'r dasg hon yn gofyn i chi gynhyrchu traethawd ysgrifenedig o 2,500 o eiriau sy'n eich galluogi i ddangos eich dealltwriaeth feirniadol o ddull cynnar o ymyrryd sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth a gellid ei gymhwyso i gefnogi lles eich dysgwyr. Rhaid cyfeirnodu'n addas drwy'r traethawd cyfan a chynnwys rhestr gyfeirio gywir ar ddiwedd y traethawd (nid yw hon wedi'i chynnwys yn y nifer o eiriau).

Traethawd Ysgrifenedig

Bydd angen i chi ddarparu sylwebaeth ddadansoddol sy'n cefnogi/ychwanegu gwybodaeth tuag at elfennau o'ch cyflwyniad drwy ddarparu adolygiad beirniadol o'r sail dystiolaeth sy'n seiliedig ar ymyriad cynnar penodol.

Dylech feddwl am lunio eich traethawd mewn tair rhan - cyflwyniad, prif ran, a chasgliad. **Sylwer – ni ddisgwylir i chi weithredu'r ymyriad hwn yn eich gosodiad ar gyfer y dasg. Dim ond i drafod yn feirniadol sut y gellid ei weithredu/werthuso y dylech.**

Cyflwyniad:

- Darparu trosolwg o'r systemau cyfredol i gefnogi lles yn eich lleoliad a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'r gyfraith a'r polisiau cyfredol yn y maes hwn. Cyflwynwch yn fyr eich ymyriad dewisol a'r rheswm pam rydych wedi dewis hyn ar gyfer y traethawd hwn.

Prif gorff:

- Disgrifiwch y sylfaeni o safbwynt theori a pholisi ar gyfer ymyrraeth, gan ddefnyddio cyfeiriadau priodol at theori a pholisi.
- Trafodwch yn feirniadol sut y datblygwyd, gweithredwyd a gwerthuswyd yn ymyrraeth.
- Dadansoddwch yn feirniadol i ba raddau mae ymchwil cyfredol, gan gynnwys tystiolaeth o ymchwil rhyngwladol, yn cefnogi'r strategaethau ymyrraeth hyn.
- Myfyriwch yn feirniadol ar sut y byddech yn ymgorffori'r ymyriad a ddewiswyd gennych yn eich lleoliad proffesiynol, a thrafodwch sut y byddech yn dangos a yw'n effeithiol ai peidio. Os ydych yn dewis trafod ymyriad sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio yn eich lleoliad, RHAI'D i chi werthuso'n feirniadol a yw hwn wedi'i werthuso'n dda ai peidio ac a ellid ystyried dulliau eraill.

Casgliad:

- Gorffennwch eich traethawd trwy grynhoi, gan dynnu ar y dystiolaeth a gyflwynir yn eich traethawd, effeithiolrwydd a chymhwysedd cymharol yr ymyrraethau a ddewiswyd gennych ac ystyriwch eu cynaliadwyedd o fewn eich lleoliad proffesiynol chi.

Meini Prawf Aseu:

Mae dwy elfen eich aseiad wedi'u cynllunio i'ch galluogi i asesu i ba raddau yr ydych wedi bodloni deilliannau dysgu'r modiwl drwy ddangos eich gallu i:

Melyn = cyflwyniad

Gwyrdd = traethawd

	Pwysoli	Deilliannau Dysgu
Gwerthuso'n feirniadol ystod o ddamcaniaethau sy'n berthnasol i faterion lles o fewn addysg a'r cydberthnasau sy'n effeithio'n negyddol ar les plant.	19%	DD1
Archwilio'n feirniadol y ddeddfwriaeth, y polisiau a'r arferion cyfredol sy'n ymwneud â modelau o iechyd a lles, hapusrwydd, gwytnwch a hawliau plant a'r dystiolaeth sy'n sail i'r rhain.	19%	DD2
Archwilio'n feirniadol y dystiolaeth o ymchwil ryngwladol ar iechyd emosiynol, iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles i gael amryw o safbwyntiau .	19%	DD2& DD3
Gwerthuso'n feirniadol ystod o ymyraethau cynnar mewn perthynas â hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a lles plant / glasoed, gan hefyd asesu'r dystiolaeth sydd ynghlwm ag effeithiolrwydd ystod o fesurau ataliol.	19%	DD4
Gwerthuso'n feirniadol a (lle bo'n briodol) cymhwyso eu gwybodaeth am y damcaniaethau a'r dystiolaeth ryngwladol (yn ymwneud ag iechyd emosiynol, iechyd meddwl a lles) i'w cydestun personol/proffesiynol.	19%	DD5
Cyfeiriodi.	5%	

Meini Prawf Asesu		Rubric Asesu
Y gallu i werthuso'n feirniadol ystod o ddamcaniaethau sy'n berthnasol i faterion yn ymwneud â lles o fewn addysg a'r rhyngberthnasau sy'n cael effaith negyddol ar les plant.	Rhagoriaeth (70+)	Ymgysylltiad beirniadol da iawn ag ystod o ddamcaniaethau sy'n berthnasol i faterion yn ymwneud â lles o fewn addysg a'r rhyngberthynas sy'n cael effaith negyddol ar les plant.
	Teilyngdod (60+)	Ymgysylltiad beirniadol da ag ystod o ddamcaniaethau sy'n berthnasol i faterion yn ymwneud â lles o fewn addysg a'r rhyngberthynas sy'n cael effaith negyddol ar les plant.
	Llwyddo (50+)	Ychydig o ymgysylltiad beirniadol ag ystod o ddamcaniaethau sy'n berthnasol i faterion yn ymwneud â lles o fewn addysg a'r rhyngberthynas sy'n cael effaith negyddol ar les plant.
	Methu	Dim neu ystod gyfyngedig o ymgysylltiad beirniadol ag amrywiaeth o ddamcaniaethau sy'n berthnasol i faterion yn ymwneud â lles o fewn addysg a'r rhyngberthynas sy'n cael effaith negyddol ar les plant.
Y gallu i archwilio'n feirniadol ddeddfwriaeth, polisi ac arfer cyfredol sy'n ymwneud â modelau o iechyd a lles, hapusrwydd, gwytnwch a hawliau plant, a'r dystiolaeth o ymchwil sy'n eu cefnogi, gan ddefnyddio rhai modelau rhyngwladol fel fframweithiau cymharol a chyd-destunol.	Rhagoriaeth (70+)	Archwiliad beirniadol da iawn o ddeddfwriaeth, polisi ac arfer cyfredol, gan gynnwys ymchwil ategol helaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol gref o'r cyd-destun rhyngwladol.
	Teilyngdod (60+)	Archwiliad beirniadol da o ddeddfwriaeth, polisi ac arfer cyfredol, gan gynnwys ymchwil ategol ac ymwybyddiaeth feirniadol o'r cyd-destun rhyngwladol.
	Llwyddo (50+)	Archwiliad beirniadol boddhaol o ddeddfwriaeth, polisi ac arfer cyfredol, gan gynnwys ychydig o ymchwil ategol ac ychydig o ymwybyddiaeth feirniadol o'r cyd-destun rhyngwladol.
	Methu	Dim neu ystod gyfyngedig disgrifiadol o ddeddfwriaeth, polisi ac arfer cyfredol, gan gynnwys dim neu ychydig bach o ymchwil ategol ac ymwybyddiaeth feirniadol o'r cyd-destun rhyngwladol.
Y gallu i archwilio'n feirniadol yr ymchwil ryngwladol ar iechyd emosiynol, iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles er mwyn darparu safbwyntiau gwahanol.	Rhagoriaeth (70+)	Archwiliad beirniadol da iawn o'r ymchwil rhyngwladol ar iechyd emosiynol, iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles a dealltwriaeth gref o wahanol safbwyntiau.
	Teilyngdod (60+)	Archwiliad beirniadol da o'r ymchwil rhyngwladol ar iechyd emosiynol, iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles a dealltwriaeth dda o wahanol safbwyntiau.
	Llwyddo (50+)	Ychydig o archwilio beirniadol o'r ymchwil rhyngwladol ar iechyd emosiynol, iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles ac ychydig o dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau.
	Methu	Dim neu ystod gyfyngedig o archwilio beirniadol o'r ymchwil rhyngwladol ar iechyd emosiynol, iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles ac ychydig bach neu ddim dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau.
Y gallu i werthuso'n feirniadol ystod o ymyraethau cynnar mewn perthynas â hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a lles plant / glasoed, tra hefyd yn asesu'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ystod o fesurau ataliol.	Rhagoriaeth (70+)	Gwerthusiad beirniadol da iawn o ystod o ymyraethau cynnar mewn perthynas â hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a lles plant / glasoed, gan gynnwys gwerthusiad cryf o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ystod o fesurau ataliol.
	Teilyngdod (60+)	Gwerthusiad beirniadol da o ystod o ymyraethau cynnar mewn perthynas â hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a lles plant / glasoed, gan gynnwys gwerthusiad da o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ystod o fesurau ataliol.
	Llwyddo (50+)	Gwerthusiad beirniadol boddhaol o ystod o ymyraethau cynnar mewn perthynas â hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a lles plant / glasoed, gan gynnwys ychydig o werthuso o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ystod o fesurau ataliol.
	Methu	Dim neu ystod gyfyngedig o werthuso beirniadol o amrywiaeth o ymyraethau cynnar mewn perthynas â hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a lles plant / glasoed, gan gynnwys gwerthusiad cyfyngedig neu ddim gwerthusiad o effeithiolrwydd ystod o fesurau ataliol.
Y gallu i werthuso'n feirniadol a (lle bo hynny'n briodol) cymhwyso eu gwybodaeth o'r damcaniaethau a'r dystiolaeth ryngwladol (sy'n ymwneud ag iechyd emosiynol, iechyd meddwl a lles) i'w cyd-destun	Rhagoriaeth (70+)	Gwerthuso beirniadol da iawn a chymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau a thystiolaeth ryngwladol i gyd-destun personol / proffesiynol.
	Teilyngdod (60+)	Gwerthuso beirniadol da a chymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau a thystiolaeth ryngwladol i gyd-destun personol / proffesiynol.
	Llwyddo (50+)	Ychydig o werthuso beirniadol a chymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau a thystiolaeth ryngwladol i gyd-destun personol / proffesiynol.

personol / proffesiynol eu hunain.	Methu	Dim neu ystod gyfyngedig o werthuso beirniadol a chymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau a thystiolaeth ryngwladol i gyd-destun personol / proffesiynol.
Y gallu i ddangos sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy cryf a'r gallu i gyfathrebu'n gywir ac yn glir trwy ystod o gyfryngau (llafar ac ysgrifenedig) i gynulleidfaoedd priodol.	Rhagoriaeth (70+)	Arddangosiad da iawn o sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy.
	Teilyngdod (60+)	Arddangosiad da o sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy.
	Llwyddo (50+)	Arddangosiad boddhaol o sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy.
	Methu	Dim neu ystod gyfyngedig o arddangos sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy.
Cyfeirnod	Rhagoriaeth (70+)	Mae cyfeirnod Harvard yn rhagorol, ac yn cael ei ddefnyddio yn gywir ac yn gyson drwy gydol yr aseiniad er mwyn cydnabod ffynonellau'n glir. Rhestrir ffynonellau yn gyfan, yn glir ac yn gywir yn y llyfryddiaeth / rhestr cyfeirnodau.
	Teilyngdod (60+)	Mae arfer cyfeirnod Harvard yn dda, ac yn cael ei ddefnyddio drwy gydol yr aseiniad er mwyn cydnabod ffynonellau'n glir, ond gyda rhai gwallau a/neu anghysondebau. Yn gyffredinol, rhestrir ffynonellau yn gywir ac yn glir yn y llyfryddiaeth / rhestr cyfeirnodau, ond gyda rhai gwallau.
	Llwyddo (50+)	Mae arfer cyfeirnod Harvard yn foddhaol ar y cyfan, ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn cydnabod ffynonellau, ond gyda nifer o wallau ac anghysondebau cyson. Rhestrir ffynonellau yn y llyfryddiaeth / rhestr cyfeirnodau gyda nifer o wallau cyson.
	Methu	Mae arfer cyfeirnod Harvard yn wael, gyda ffynonellau yn cael eu cydnabod mewn modd anghyson a/neu aneglur. Mae'r llyfryddiaeth / rhestr cyfeirnodau yn anghyson iawn, gyda gwallau trwyddi draw, a gall fod yn anghyflawn.

Beth ddylwn i ei wneud os nad wyf yn gwybod ble i ddechrau neu os ydw i ar goll gyda fy asesiadau?

Rydym yn cydnabod mai hwn fydd eich asesiad cyntaf ar gyfer eich MA ac mae'n hollol naturiol i deimlo ychydig ar goll ar adegau. Cofiwch fod yna ganllaw asesu clir, gan gynnwys y wybodaeth a rannwyd ar ddechrau pob Sadwrn Cynhadledd Genedlaethol, felly cymerwch eich amser i edrych yn ôl trwy'r rhain os y byddwch chi'n dechrau teimlo ychydig ar goll. Cofiwch hefyd fod eich tîm modiwl yno i'ch cefnogi gydag ymholiadau cyffredinol ar adegau penodol, er na fyddwn yn rhoi adborth unigol ar eich gwaith.

Pa arddull cyfeirnod dylwn i ddefnyddio?

Defnyddiwch dull cyfeirnod Harvard oni bai bod eich sefydliad eich hun yn gofyn i chi ddefnyddio system arall. Pa bynnag system rydych chi'n ei defnyddio mae'n rhaid i chi gyfeirio'n gyson yn y testun ac yn y rhestr gyfeirio. Peidiwch â chynnwys cyfeiriadau yn eich rhestr gyfeirio os na wnaethoch chi eu dyfynnu yn eich testun h.y., peidiwch â chynnwys ffynonellau darllen ehangach os nad ydych chi wedi cyfeirio'n benodol atynt yn eich gwaith.

Oes modd i mi gyflwyno yn y person cyntaf?

Gallwch - mae natur y cyflwyniad hwn yn golygu ei bod yn briodol cyflwyno yn y person cyntaf yn eich cyflwyniad llafar. Gellir cyflwyno'r sleidiau hefyd yn bersonol os ydych chi'n teimlo bod hynny'n briodol.

Oes modd i mi ysgrifennu fy aseiniad ysgrifenedig yn y person cyntaf?

Gan nad yw'r sylwebaeth ddadansoddol sydd ei angen ar gyfer y traethawd hwn yn ddarn adfyriol, yna rydym yn gyffredinol yn argymhell eich bod yn ysgrifennu yn y trydydd person neu yn defnyddio ffurf amheronol y ferf yn hytrach na'r person cyntaf. Y rheswm am hyn yw bod angen i'r traethawd gynnwys adolygiad beirniadol academaidd cryf o'r dystiolaeth ymchwil sy'n sail i'r ymyrraeth (au) a dylai gael ei ysgrifennu mewn dull adolygiad cyfnodolyn academaidd. Os byddwch yn penderfynu ysgrifennu eich traethawd yn y person cyntaf, sicrhewch fod y dull academaidd yn briodol os gwelwch yn dda.

Sut dylwn i greu a chyflwyno fy nghyflwyniad?

Gofynnwch i'ch sefydliad eich hun am arweiniad pellach, ond byddem yn argymhell eich bod yn defnyddio Pwerbwynt gyda'r opsiwn recordio llais (gyda'r nodwedd fideo yn ddelfrydol fel y gallwn eich gweld chi'n cyflwyno) gan fod y system hon yn cael ei derbyn gan y mwyafrif o systemau cyflwyno. Os ydych yn dymuno defnyddio opsiwn gwahanol, gwiriwch â'ch sefydliad eich hun ei fod yn gydnaws â'u system gyflwyno. Y peth pwysig yw ei bod yn RHAIID i chi fod wedi cyflwyno sleidiau'n glir a RHAIID i chi gael llais i gyd-fynd gyda hynny er mwyn cynhyrchu cyflwyniad llafar clir a rhesymegol.

Pryd mae fy nghyfle olaf i ofyn unrhyw gwestiynau i'r tîm modiwl am yr aseiniad?

Bydd eich tîm Sefydliad Addysg Uwch unigol wedi egluro ichi sut y byddant yn eich cefnogi gydag unrhyw gwestiynau am yr aseiniad hyd at ddiwedd y tymor. Ni fydd unrhyw ymatebion unigol i unrhyw ymholiad gan fyfyrwyr ynghylch asesiadau ar ôl 5pm dydd Gwener Rhagfyr 13eg, oherwydd ar ôl y dyddiad / amser hwn bydd staff academaidd yn cymryd gwyliau. Eich cyfrifoldeb chi felly yw sicrhau eich bod wedi gofyn unrhyw gwestiynau am eich asesiad cyn hanner dydd ddydd Gwener yr 13eg, fel y gellir eu hateb cyn diwedd y tymor. Ar ôl hynny, ni fydd llawer o gyfle i ateb ymholiadau yn y Flwyddyn Newydd cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r aseiniad, oherwydd bryd hynny dim ond ychydig ddyddiau fydd gennych yn weddill i gwblhau eich asesiad. Meddyliwch ymlaen llaw a chynlluniwch eich amser yn unol â hynny.